

Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol (dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg,
Ysbyty Singleton, Ward 6**

14 a 15 Ionawr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	3
4.	Crynodeb	4
5.	Canfyddiadau	8
	Ansawdd Profiad y Claf	8
	Cyflenwi Hanfodion Gofal	10
	Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth	18
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol	22
6.	Y Camau Nesaf.....	28
	Atodiad A.....	29

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad urddas a gofal hanfodol dirybudd yn Ward 6, Ysbyty Singleton, rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 14 a 15 Ionawr 2015.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd rheoli staff ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol.

2. Methodoleg

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC yn arolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn arolygu dogfennau a gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion, perthnasau a chyfweliadau gyda staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr y bwrdd iechyd
- Holiaduron AGIC wedi'u cwblhau
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion gofal.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch urddas a gofal hanfodol.

3. Cyd-destun

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cynnwys poblogaeth o tua 500,000 o bobl ac yn cyflogi tua 16,500 o aelodau staff.

Ceir pedwar ysbyty aciwt yn y bwrdd iechyd sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau: Ysbyty Singleton ac Ysbyty Treforys yn Abertawe, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mhort Talbot, ac Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw'r rhain. Ceir nifer o ysbytai cymuned bach hefyd sy'n darparu gwasanaethau clinigol y tu allan i'r pedwar prif ysbyty aciwt.

Ysbyty cyffredinol dosbarth â 550 gwely yw Ysbyty Singleton, wedi'i leoli ym Mae Abertawe, nesaf at gampws Prifysgol Abertawe. Ceir adrannau meddygol cyffredinol aciwt, gofal henoed, llawfeddygol cyffredinol, offthalmoleg, clustiau, trwyn a gwddf, a radiotherapi yn ogystal ag uned dibyniaeth uchel a'r adrannau obstetreg a gynaeoleg.

Ward 30 gwely yw Ward 6 sy'n darparu gofal i gleifion sy'n oedolion ag anghenion gofal meddygol. Mae'r ward yn arbenigo mewn darparu gwasanaethau gofal iechyd i gleifion ag anhwylderau'r system endocrin, er enghraifft diabetes.

4. Crynodeb

Fe'n hysbyswyd yn gyffredinol gan gleifion eu bod yn fodlon â'r gofal a'r driniaeth a ddarperir ar y ward. Canfuwyd gennym fod y ward yn lân a thaclus.

Yn gyffredinol, roedd safonau hanfodion gofal yn cael eu bodloni ar y ward. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant o ran y safonau'n ymwneud â chwsg, gorffwys a gweithgarwch, a bwyta ac yfed. Argymhellwyd gennym hefyd y dylai tîm y ward ystyried defnyddio dull asesu poen mwy cynhwysfawr.

Fe'n hysbyswyd yn gyffredinol gan gleifion bod y staff wedi eu helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol. Gwelsom staff yn esbonio gweithdrefnau i gleifion yn ymwneud â'u gofal.

Gwelsom staff yn trin cleifion a'u perthnasau gyda pharch.

Roedd y staff yn cynorthwyo'r cleifion i fod mor annibynnol ag yr oedd eu cyflyrau'n eu caniatáu. Mae aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaeth yn ymweld â'r ward i asesu cleifion a darparu offer i'w helpu i fod yn annibynnol.

Canfuwyd gennym fod trefniadau priodol ar waith i alluogi cleifion i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau.

Dynododd sylwadau gan gleifion yr amherir ar eu cwsg weithiau oherwydd sŵn a gweithgarwch cyffredinol ar y ward.

Roedd y stoc o ddillad gwely ar y ward yn ymddangos yn isel. Fe'n hysbyswyd gan y staff bod oedi cyn i ddillad gwely glân gael eu anfon i'r ward weithiau. Rydym wedi argymhell y dylai'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau am hyn a chymryd camau cywiro yn ôl yr angen.

Canfuwyd nifer o oleuadau gwely nad oeddent yn gweithio. Fe'n hysbyswyd bod hyn wedi golygu y bu'n rhaid i'r staff ddefnyddio'r prif oleuadau yn y nos wrth helpu cleifion, gan amharu ar bobl eraill yn y cilfannau. Hysbyswyd y nyrs gyfrifol am hyn, a gwnaed atgyweiriadau i'r goleuadau yn ystod ein harolygiad.

Gwelsom fod y staff wedi asesu poen cleifion ac wedi cymryd camau i'w gwneud yn gyfforddus.

Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod y cleifion yn derbyn gofal da. Fodd bynnag, roeddem yn teimlo yn ystod ein harolygiad y byddai'r cleifion wedi elwa o ymyrraeth fwy rheolaidd gan y staff nyrsio i ddiwallu eu hanghenion gofal.

Mae amser bwyd a amddiffynnir ar waith, a chydymffurfir â hyn yn gyffredinol. Fe'n hysbyswyd gan rai cleifion y gweinwyd bwyd iddynt nad oedd mor gynnes

ag y byddent wedi ei hoffi weithiau. Hysbyswyd aelodau staff uwch am hyn fel y gallent archwilio rhesymau posibl am hyn a chymryd camau cywiro yn ôl yr angen.

Ceir cyflenwad o bast dannedd a brwsys dannedd ar y ward fel y gellir diwallu anghenion hylendid y geg cleifion.

Roedd y toiledau'n lân ac wedi'u trefnu'n briodol i leihau croes-heintio. Gwelsom y staff yn ymateb i geisiadau cleifion ac yn eu helpu yn ôl yr angen.

Gwelsom offer lleddfu pwysau priodol yn cael ei ddefnyddio a oedd yn lân ac yn gweithio'n iawn. Roedd y cofnodion asesu a monitro'n dynodi bod y staff yn darparu gofal i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu.

Ar adeg ein harolygiad, roeddem yn teimlo bod gan rai cleifion ag anghenion cymhleth angen ymyrraeth fwy rheolaidd gan y staff nyrsio. Dynododd sgysrsiau gyda'r staff eu bod yn teimlo bod angen adolygu lefelau staffio.

Gwelsom arweinyddiaeth dda gan y nyrs gyfrifol ar ddau ddiwrnod ein harolygiad, ac roedd yn amlwg bod aelodau staff uwch ar y ward wedi ymrwymo i gynorthwyo a datblygu tîm y ward.

Fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod wedi derbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi. Fodd bynnag, dangosodd canlyniadau archwiliadau bod angen gwelliannau er mwyn i'r ward gydymffurfio â tharged hyfforddiant y bwrdd iechyd.

Fe'n hysbyswyd gan y nyrs gyfrifol y byddai'r staff yn ceisio datrys pryderon (cwynion) ar lefel y ward cyn belled â phosibl.

Dywedodd y nyrs gyfrifol bod trefniadau priodol ar waith i hysbysu am ddigwyddiadau clinigol ac ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt.

Mae gan y staff fynediad at amrywiaeth o bolisiâu perthnasol.

Gwelsom fod archwiliadau'n cael eu cynnal i wirio agweddau allweddol ar ofal cleifion. Argymhellwyd gennym y dylai'r rhain gael eu hategu trwy gwblhau ac arddangos croesau diogelwch¹ ar y ward.

¹ Addaswyd y Groes Ddiogelwch o ddiwydiant i wneud achosion o ddigwyddiadau andwyol y gellid eu hosgoi'n hynod amlwg. Mae gwneud hynny'n sicrhau bod y tîm cyfan yn ymwybodol o

Canfuwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y gofal a ddarperir i gleifion yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion gofal i ni eu gweld bob amser yn cynnwys tystiolaeth bod materion galluedd meddyliol wedi cael eu hasesu neu eu hystyried wrth ddarparu gofal. Rydym wedi argymhell bod y bwrdd iechyd yn cymryd camau priodol i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Gwelsom arfer diogel o ran rheoli meddyginiaeth a oedd yn cael ei defnyddio ar y ward.

Gwelsom gynlluniau gofal ysgrifenedig ar waith ar gyfer cleifion, ac roedd y rhain yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd. Er bod cynlluniau gofal ysgrifenedig ar waith, roedd y rhain yn safonedig, a byddent yn elwa o gael eu hunigoli ymhellach ar gyfer pob claf. Roedd rhai dogfennau asesu risg a oedd yn cael eu defnyddio wedi cael ei lungopïo, ac roedd yr ansawdd argraffu'n wael. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd eu darllen, ac rydym wedi argymhell bod y bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â hyn.

Nid oedd rhai cofnodion yn y cynlluniau gofal yn ddarllenadwy, ac rydym wedi argymhell bod y bwrdd iechyd yn cymryd camau priodol i sicrhau bod staff yn cydymffurfio â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Ymweliadau Dirybudd ar ran y Gweinidog

Ar 28 Gorffennaf 2014, cynhaliwyd ymweliad dirybudd ar ran y gweinidog â'r ysbyty, a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r canfyddiadau mewn adroddiad.² Defnyddiwyd y canfyddiadau o'r ymweliadau hyn i hysbysu ein harolygiad urddas a gofal hanfodol. Er bod ein harolygiad yn canolbwyntio ar Ward 6, ymwelwyd â dwy o'r wardiau yr ymwelwyd â nhw gan dîm adolygu'r hapwiriad i ystyried yr arfer ehangach ar wardiau yn yr ysbyty. Ward 3 a Ward 4 oedd y wardiau yr ymwelwyd â nhw.

Canfuwyd gennym fod gwelliannau wedi'u gwneud mewn rhai o'r meysydd a nodwyd gan yr ymweliadau hapwirio. Roedd y rhain yn ymwneud yn benodol â'r

ddigwyddiadau y gellid eu hosgoi gan gyflwyno synnwyr o bwrpas o ran gweithio i osgoi digwyddiadau yn y dyfodol.

² Mae copi o'r adroddiad *Gwersi yn sgil Ymddiried mewn Gofal, Ymweliadau Dirybudd ar ran y Gweinidog ag Ysbyty Singleton, Abertawe* ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <http://wales.gov.uk/topics/health/nhs-wales/spot-checks/abertawe1/?lang=cy>

ddarpariaeth o gymhorthion toiled a storio meddyginiaeth. Fodd bynnag, er ei fod wedi'i leoli mewn ystafell y gellir ei chloi, argymhellwyd gennym y dylid rhoi clo newydd ar y cwpwrdd meddyginiaeth ar Ward 3. Roedd hyn ar gyfer diogelwch meddyginiaeth ychwanegol. Cytunodd uwch reolwyr yr ysbyty i drefnu i'r gwaith hwn gael ei wneud.

Roeddem yn siomedig i ganfod bod dogfennau wedi'u llungopio'n wael yn dal i gael eu defnyddio ar Ward 3, a hysbyswyd uwch reolwyr yr ysbyty am hyn. Nodwyd yr un broblem gennym ar Ward 6 hefyd, ac rydym wedi gwneud argymhelliad penodol ynghylch hyn yn yr adroddiad hwn. Rydym yn disgwyl i gamau gael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, nid yn unig ar Ward 6, ond ar draws rhannau eraill o'r bwrdd iechyd yn ôl yr angen.

Fe'n hysbyswyd na adolygwyd y gymysgedd sgiliau ar wardiau 3 a 4, ond fe'n sicrhawyd bod y sefyllfa wedi gwella ers adeg yr hapwiriadau. Fe'n hysbyswyd bod hyn o ganlyniad i staff a oedd wedi bod yn absennol oherwydd salwch gynt yn dychwelyd i'r gwaith a chyflwyno shifft gyda'r hwyr i sicrhau staffio addas ar adegau prysur yn ystod y shifft nos.

Canfuwyd gennym nad oedd jygiau dŵr yn cael eu hail-lenwi tair gwaith y dydd fel yr argymhellir. Trafodwyd hyn gydag uwch reolwyr yr ysbyty. Fe'n hysbyswyd ganddynt eu bod yn ymwybodol o'r mater ac wedi cyfarfod â chynrychiolydd o swyddfa Prif Swyddog Nyrsio Cymru ac yn gweithio tuag at ffordd addas ymlaen.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Fe'n hysbyswyd yn gyffredinol gan gleifion eu bod yn fodlon â'r gofal a'r driniaeth a ddarperir ar y ward. Canfuwyd gennym fod y ward yn lân a thaclus.

Gwahoddwyd cleifion a pherthnasau i gwblhau ein holiaduron yn ystod yr arolygiad, i'n hysbysu am eu profiadau ar y ward. Gofynnwyd am eu safbwyntiau ar amgylchedd y ward, staff yr ysbyty, a'r gofal a dderbyniwyd. Cawsom sylwadau gan gleifion ac ymwelwyr trwy sgyrsiau ad hoc hefyd.

Cwblhawyd cyfanswm o ddeg holiadur, naill ai drwy'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb neu cawsant eu cwblhau a'u dychwelyd i ni yn ystod yr arolygiad.

Yn gyffredinol, dywedodd y rhai a gynigiodd sylwadau yn yr holiaduron bod y ward wedi bod yn lân ac yn daclus yn ystod eu harhosiad. Cadarnhawyd hyn trwy ein harsylwadau ar y diwrnodau i ni ymweld.

Yn gyffredinol, fe'n hysbyswyd gan y rhai a gwblhaodd holiaduron bod y staff yn foesgar â nhw a'u ffrindiau a'u teuluoedd.

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

'Mae'r holl staff yn gyfeillgar.'

'Maen nhw'n anhygoel.'

'Mae rhai'n well nag eraill.'

Gwelsom staff yn bod yn foesgar ac yn trin cleifion gyda chwarteisi. Gwelsom staff yn sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion hefyd wrth eu helpu gyda'u hanghenion gofal.

Pan ofynnwyd iddynt gynnig eu sylwadau ar y gofal roeddent wedi ei dderbyn, fe'n hysbyswyd gan gleifion a wnaeth sylwadau yn yr holiaduron a gwblhawyd bod y staff yn garedig ac yn eu helpu yn ôl yr angen. Gwahoddwyd y cleifion i farcio'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt ar y ward. Rhoddodd mwyafrif y cleifion farc rhwng 8 a 10 allan o 10.

Roedd sylwadau eraill a wnaed yn yr holiaduron a gwblhawyd yn cynnwys:

'Fel ymwelydd, roeddwn i'n hapus i weld fod fy mherthynas yn derbyn gofal da ac yn lân.'

'Mae'r staff wedi bod yn ardderchog gyda mi. Y nyrsys, y meddygon, [gweithwyr cymorth gofal iechyd]. Maen nhw'n anhygoel.'

'Mae'r bwyd yn hollol ddi-flas.'

'Mae'r gofal ... o'r radd flaenaf.'

Cyflenwi Hanfodion Gofal

Yn gyffredinol, roedd safonau hanfodion gofal yn cael eu bodloni ar y ward. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant o ran y safonau'n ymwneud â chwsg, gorffwys a gweithgarwch, a bwyta ac yfed. Argymhellwyd gennym hefyd y dylai tîm y ward ystyried defnyddio dull asesu poen mwy cynhwysfawr.

Cyfathrebu a gwybodaeth

Rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn ynglŷn â'u gofal mewn iaith a dull sy'n sensitif i'w hanghenion.

Fe'n hysbyswyd yn gyffredinol gan gleifion bod y staff wedi eu helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol. Gwelsom staff yn esbonio gweithdrefnau i gleifion yn ymwneud â'u gofal.

Fe'n hysbyswyd yn gyffredinol gan gleifion a gwblhaodd holiaduron bod y staff wedi trafod eu cyflyrau meddygol â nhw a wnaeth eu helpu i gael dealltwriaeth well.

Gwelsom staff nyrsio'n esbonio triniaethau i gleifion ac yn derbyn eu caniatâd cyn darparu gofal. Roedd meddygon yn cynnal rowndiau ar adeg ein harolygiad, a chanfuwyd gennym eu bod mor synhwyrol â phosibl wrth weld cleifion.

Canfuwyd gennym y darperir cyngor i gleifion ar eu gofal a'u triniaeth gan ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol. Mae hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at gyngor arbenigol gan dîm ehangach yr ysbyty.

Parchu pobl

Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a medru cymryd penderfyniadau cytbwys, a rhaid i'r gofal a ddarperir gymryd anghenion, galluedd a dymuniadau'r claf i ystyriaeth.

Gwelsom staff yn trin cleifion a'u perthnasau gyda pharch.

Gwelsom y staff yn bod yn foesgar tuag at gleifion ac yn trin cleifion gyda pharch. Roedd y staff yn sicrhau preifatrwydd y cleifion cyn belled â phosibl wrth eu helpu â'u hanghenion hylendid personol.

Hyrwyddo annibyniaeth

Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r person wrth wneud y mwyaf o'u gallu a'u dymuniad i ofalu amdanynt eu hunain.

Roedd y staff yn cynorthwyo'r cleifion i fod mor annibynnol ag yr oedd eu cyflyrau'n ei ganiatáu. Mae aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaeth yn ymweld â'r ward i asesu cleifion a darparu offer i'w helpu i fod yn annibynnol.

Gwelsom y staff yn helpu cleifion i fod mor annibynnol ag yr oedd eu cyflyrau'n ei ganiatáu. Roedd arwyddion eglur ar gyfer y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi i gynorthwyo'r cleifion i ddod o hyd i'r manau hyn yn annibynnol.

Roedd eiddo personol y cleifion gerllaw fel y gallent gyrraedd y rhain heb fod angen help arnynt gan staff.

Mae therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion yn ymweld â'r ward i asesu cleifion a darparu cyngor ac offer i hybu eu hannibyniaeth. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y mae eu cyflyrau'n ei ganiatáu tra eu bod ar y ward er mwyn eu paratoi i gael eu rhyddhau'n ddiogel i fynd adref.

Perthnasau

Rhaid annog pobl i gadw eu cysylltiad gyda'u teulu a'u cyfeillion a datblygu perthynas ag eraill yn unol â'u dymuniadau.

Canfuwyd gennym fod trefniadau priodol ar waith i alluogi cleifion i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau.

Fe'n hysbyswyd bod oriau ymweld wedi'u strwythuro ar y ward. Fodd bynnag, cadarnhaodd y staff y gallai'r rhain fod yn hyblyg gyda chytundeb y nyrs gyfrifol. Mae hyn yn golygu y gall cleifion gadw mewn cysylltiad â'u perthnasau a'u ffrindiau tra eu bod yn yr ysbyty.

Fe'n hysbyswyd bod y ward yn annog perthnasau a ffrindiau i gymryd rhan mewn gofal yn unol â'u dymuniadau nhw a'r claf. Ceir cyfleusterau hefyd i berthnasau a gofalwyr aros dros nos os oes angen, i fod gyda chleifion sy'n sâl iawn.

Ceir ystafell ddydd ar y ward i gleifion ei defnyddio ac i dreulio amser gyda'u perthnasau a'u ffrindiau. Fodd bynnag, ni welsom yr ystafell hon yn cael ei defnyddio yn ystod ein harolygiad.

Gorffwys, cysgu a gweithgareddau

Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl er mwyn iddynt fedru gorffwys a chysgu.

Dynododd sylwadau gan gleifion yr amherir ar eu cwsg weithiau oherwydd sŵn a gweithgarwch cyffredinol ar y ward.

Roedd y stoc o ddillad gwely ar y ward yn ymddangos yn isel. Fe'n hysbyswyd gan y staff bod oedi cyn i ddillad gwely glân gael eu anfon i'r ward weithiau. Rydym wedi argymhell y dylai'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau am hyn a chymryd camau cywiro yn ôl yr angen.

Canfuwyd nifer o oleuadau gwely nad oeddent yn gweithio. Fe'n hysbyswyd bod hyn wedi golygu y bu'n rhaid i'r staff ddefnyddio'r prif oleuadau yn y nos wrth helpu cleifion, gan amharu ar bobl eraill yn y cilfannau. Hysbyswyd y nyrs gyfrifol am hyn, a gwnaed atgyweiriadau i'r goleuadau yn ystod ein harolygiad.

Gwelsom gleifion yn mynd i orffwyso yn eu gwelyau ar wahanol adegau o'r diwrnod yn ystod ein harolygiad.

Roedd yr holl welyau ar y ward wedi'u cyweirio, ac roedd yn ymddangos bod gan y cleifion ddigon o obenyddion a blancedi i'w gwneud yn gyfforddus. Gwiriwyd y stoc o ddillad gwely a oedd ar gael. Er ei bod yn ymddangos bod digon o flancedi ar gael, roedd y stoc o gynfasau'n isel. Roedd y staff yn cytuno â'n barn, ac esboniwyd er y gallent ofyn am ragor o gynfasau, bod oedi cyn iddynt gael eu anfon i'r ward weithiau. Gallai hyn arwain at oediadau cyn i gleifion ddychwelyd i'r gwely i orffwyso pe bai angen newid eu dillad gwely.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau am yr oedi cyn bod dillad gwely glân ar gael a chymryd camau priodol i sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael i'r ward yn brydlon.

Derbyniwyd sylwadau gan gleifion a ddywedodd wrthym eu bod wedi cael trafferth yn cysgu. Roedd yn ymddangos bod hyn oherwydd sŵn a gweithgarwch cyffredinol ar y ward. Hefyd, nid oedd nifer o oleuadau gwely'n gweithio. Fe'n hysbyswyd gan y cleifion bod hyn wedi golygu y bu'n rhaid defnyddio'r prif oleuadau pan oedd y staff yn helpu cleifion, gan amharu ar gwsg pobl eraill yn y gilfan. Codwyd hyn gyda'r nyrs gyfrifol, a threfnodd i'r goleuadau gwely gael eu harchwilio a'u trwsio yn ystod ein harolygiad.

Sicrhau cysur, lliniaru poen

Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus ac yn rhydd rhag poen ag y mae eu hamgylchiadau yn caniatáu.

Gwelsom fod y staff wedi asesu poen cleifion ac wedi cymryd camau i'w gwneud yn gyfforddus.

Roedd y cleifion yn ymddangos yn gyfforddus yn ystod ein harolygiad. Pan oedd y staff wedi asesu bod gan gleifion boen, cymerwyd camau i'w gwneud yn gyfforddus. Cadarnhaodd y cleifion a siaradodd â ni fod y staff yn darparu eu lladdwyr poen yn brydlon.

Gwelsom fod y staff wedi asesu poen y cleifion wrth gwblhau'r siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol³ (NEWS). Mae'r rhain yn cofnodi mesur (rhifol) o boen, ond nid yw'n nodi'r math o boen y mae claf yn ei ddioddef na'i lleoliad, a allai fod yn ddefnyddiol i rai cleifion er mwyn asesu a rheoli eu poen yn well. Efallai felly y byddai tîm y ward yn dymuno ystyried defnyddio dull asesu poen mwy cynhwysfawr i ategu dulliau asesu poen cyfredol.

Glendid personol, ymddangosiad a gofal traed

Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol ag y bo modd o ran gofalu am eu glendid personol, ymddangosiad a thraed.

Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod y cleifion yn derbyn gofal da. Fodd bynnag, roeddem yn teimlo yn ystod ein harolygiad y byddai'r cleifion wedi elwa o ymyrraeth fwy rheolaidd gan y staff nyrsio i ddiwallu eu hanghenion gofal.

Roedd y staff yn cynorthwyo'r cleifion gyda'u hanghenion hylendid personol yn ystod ein harolygiad. Cadarnhaodd y cleifion i ni siarad â nhw a'r rhai a ddarparodd sylwadau yn yr holiaduron a gwblhawyd bod y staff yn eu helpu yn ôl yr angen mewn ffordd garedig a sensitif.

Er i ni weld bod cleifion yn derbyn gofal da yn gyffredinol, roedd yn amlwg o'n harsylwadau y byddai rhai cleifion wedi elwa o ymyrraeth amlach gan y staff.

³System syml yw'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) y gall staff ysbytai ei defnyddio i asesu a yw cleifion yn datblygu salwch sydd o bosibl yn fgythiad i'w bywydau.

Mae ein canfyddiadau o ran staffio i'w gweld yn adran 'Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn.

Bwyta ac yfed

Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n diwallu eu gofynion maethol a phersonol a bod cleifion yn cael unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Mae amser bwyd a amddiffynnir ar waith, a chydymffurfir â hyn yn gyffredinol. Fe'n hysbyswyd gan rai cleifion y gweinwyd bwyd iddynt nad oedd mor gynnes ag y byddent wedi ei hoffi weithiau. Hysbyswyd aelodau staff uwch am hyn fel y gallent archwilio rhesymau posibl am hyn a chymryd camau cywiro yn ôl yr angen.

Mae amser bwyd a amddiffynnir ar waith ar y ward yn ystod amser cinio a chinio'r hwyr gyda'r bwriad o ganiatau i gleifion fwyta eu prydau heb ymyrraeth. Gwelsom ginio'n cael ei weini ar ddau ddiwrnod ein harolygiad, a chydymffurfiwyd â'r trefniadau'n gyffredinol. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion o ran cael amser i fwyta eu prydau.

Caiff prydau ei gweini gan westeiwraig, ac mae staff y ward yn cynorthwyo trwy fynd â phrydau i'r cleifion a'u helpu i fwyta eu prydau. Mae byrbrydau a diodydd ar gael rhwng prydau i gleifion sydd eu heisiau. Fe'n hysbyswyd hefyd am drefniadau priodol i gael gafael ar brydau i gleifion a oedd, am ryw reswm, yn absennol o'r ward yn ystod amser bwyd.

Fe'n hysbyswyd bod y ward yn defnyddio'r system hambwrdd coch,⁴ ond nad yw hyn yn bosibl bob amser oherwydd diffyg hambyrddau lliw coch. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd y byddai'r staff yn cael eu hysbysu ar lafar wrth drosglwyddo shifftiau pan fo angen monitro neu gynorthwyo cleifion.

Roedd mwyafrif y cleifion i ni eu gweld yn eistedd i fyny yn eu gwelyau neu eu cadeiriau cyn i'r pryd gael ei weini. Fodd bynnag, gwelsom staff yn helpu cleifion i eistedd i fyny i gael eu prydau yn ôl y gofyn, ac yn clirio byrddau ar yr erchwyn i wneud lle i blatiau a diodydd. Roedd y cleifion yn cael cynnig cyfle i olchi eu dwylo cyn prydau, a gwelsom staff yn clirio ac yn glanhau byrddau i baratoi ar gyfer defnyddio'r byrddau ar gyfer cinio.

⁴Ffordd syml o hysbysu staff am y ffaith bod angen monitro a/neu gynorthwyo unigolyn i fwyta yw'r system Hambwrdd Coch.

Nodwyd problem urddas gennym o ran y ffordd yr oedd un claf yn cael ei gynorthwyo i fwyta. Tynnwyd sylw'r aelod o staff at hyn ar y pryd, a chymerodd gamau ar unwaith i sicrhau y cynhaliwyd urddas y claf wedi hynny. Hysbyswyd y nyrs gyfrifol am y mater hwn hefyd fel y gellid ystyried unrhyw gamau dilynol yn ôl y gofyn.

Dywedodd rhai cleifion wrthym eu bod wedi derbyn prydau nad oeddent mor gynnes ag y byddent wedi hoffi. Roedd yn ymddangos bod hyn oherwydd y system sydd ar waith i weini prydau, a'r cleifion hynny a dderbyniodd eu prydau olaf wnaeth y sylwadau hyn. Hysbyswyd aelodau staff uwch am hyn fel y gallent archwilio ymhellach a chymryd camau cywiro fel sy'n briodol.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i nodi a yw bwyd a weinir ar y ward yn ddigon cynnes a chymryd camau priodol yn ôl y gofyn.

Fe'n hysbyswyd gan y staff hefyd bod jygiau dŵr y cleifion yn cael eu hail-lenwi ddwywaith y diwrnod fel mater o drefn. Argymhellir y dylid gwneud hyn tair gwaith y diwrnod. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym os bydd cleifion yn gofyn i hyn gael ei wneud yn amlach, neu angen mwy o ddŵr, y byddai staff y ward yn trefnu hyn.

Iechyd a glendid geneuol

Rhaid cefnogi pobl i gynnal cegau iachus a chyfforddus a dannedd a deintgig sy'n rhydd o boen, gan eu galluogi i fwyta'n dda ac atal problemau cysylltiedig.

Ceir cyflenwad o bast dannedd a brwsys dannedd ar y ward fel y gellir diwallu anghenion hylendid y geg cleifion.

Gwelsom fod cyflenwadau o frwsys dannedd a phast dannedd i gleifion eu defnyddio ar y ward. Mae potiau dannedd gosod unigol hefyd ar gael i gadw dannedd gosod cleifion yn ddiogel pan nad ydynt yn eu gwisgo.

Ni nodwyd unrhyw bryderon gennym o ran anghenion glendid geneuol y cleifion.

Anghenion toiled

Rhaid rhoi cymorth priodol, diffwdan a phrydlon pan fo angen, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw anghenion penodol a phreifatwydd.

Roedd y toiledau'n lân ac wedi'u trefnu'n briodol i leihau croes-heintio. Gwelsom y staff yn ymateb i geisiadau cleifion ac yn eu helpu yn ôl yr angen.

Gwelsom fod anghenion ymataliaeth cleifion wedi cael eu hasesu pan y'u derbyniwyd i'r ward. Fe'n hysbyswyd gan y staff y gallai canlyniad yr asesiad cychwynnol hwn arwain at gynnal asesiad mwy manwl i nodi cymorth a chymhorthion penodol sydd eu hangen.

Gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion gyda'u hanghenion toiled, gan annog a hybu eu hannibyniaeth fel yr oedd eu cyflyrau'n eu caniatáu. Cadarnhaodd y cleifion a ddarparodd sylwadau yn yr holiaduron a gwblhawyd bod y staff yn eu helpu mewn ffordd sensitif yn ôl yr angen.

Roedd y toiledau'n lân iawn, ac roedd cyfleusterau golchi dwylo addas ynddynt, a phapur, i leihau croes-heintio a chynnal urddas cleifion. Roedd yn amlwg bod comodau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac wedi'u labelu i ddynodi eu bod wedi cael eu glanhau ac yn barod i'w defnyddio.

Mae gwahanol fathau o bediau ymataliaeth ar gael ar y ward i'r cleifion eu defnyddio. Roedd yn ymddangos o'n harsylwadau a sgysiau gyda'r staff bod y rhain yn cael eu defnyddio'n briodol a dim ond ar gyfer cleifion sydd eu hangen.

Rhwystro briwiau pwyso

Rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w rhwystro rhag datblygu briwiau pwyso.

Gwelsom offer lleddfu pwysau priodol yn cael ei ddefnyddio a oedd yn lân ac yn gweithio'n iawn. Roedd y cofnodion asesu a monitro'n dynodi bod y staff yn darparu gofal i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso.

Gwelsom fod dull cydnabyddedig yn cael ei ddefnyddio gan y staff i asesu risg cleifion o ddatblygu briwiau pwyso. Roedd cofnodion (monitro) Bwndel SKIN⁵ yn dangos bod y staff wedi asesu croen y cleifion yn rheolaidd am arwyddion o friwiau pwyso. Roedd y cofnodion hyn hefyd yn dangos bod cleifion wedi cael eu cynorthwyo i newid lleoliad er mwyn atal briwiau pwyso rhag datblygu.

⁵Bwndel SKIN – Dull holistaidd syml sy'n sicrhau bod pob claf yn derbyn y gofal priodol i atal niwed pwyso.

Roedd cofnodion ysgrifenedig ar gofnodion asesu a monitro'n nodi bod y rhain yn gyfredol.

Caiff matresi aer lleddfu pwysau arbenigol eu defnyddio ar y ward i helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu. Roedd yn ymddangos bod y rhain yn lân ac yn gweithio'n iawn.

Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth

Ar adeg ein harolygiad, roeddem yn teimlo bod gan rai cleifion ag anghenion cymhleth angen ymyrraeth fwy rheolaidd gan y staff nyrsio. Dynododd sgysiaiu gyda'r staff eu bod yn teimlo bod angen adolygu lefelau staffio.

Gwelsom arweinyddiaeth dda gan y nyrs gyfrifol ar ddau ddiwrnod ein harolygiad, ac roedd yn amlwg bod aelodau staff uwch ar y ward wedi ymrwmo i gynorthwyo a datblygu tîm y ward.

Fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod wedi derbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi. Fodd bynnag, dangosodd canlyniadau archwiliadau bod angen gwelliannau er mwyn i'r ward gydymffurfio â tharged hyfforddiant y bwrdd iechyd.

Fe'n hysbyswyd gan y nyrs gyfrifol y byddai'r staff yn ceisio datrys pryderon (cwynion) ar lefel y ward cyn belled â phosibl.

Lefelau staffio a chymysgedd sgiliau ac atebolrwydd proffesiynol

Fe'n hysbyswyd gan staff uwch bod lefelau staffio wedi'u trefnu i sicrhau bod saith aelod o staff ar ddyletswydd yn ystod shiftt y bore, chwech yn ystod y prynhawn, a phedwar yn ystod y nos. Roedd y ward yn llawn ar adeg ein harolygiad, gyda 30 o gleifion yn derbyn gofal. Roedd nifer y nyrsys cofrestredig a oedd yn gweithio'n unol â'r canllawiau ar gyfer staffio nyrsys, fel y nodwyd gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru. Mae'r rhain yn argymhell na ddylai nifer y cleifion fesul nyrs gofrestrdig fod yn uwch na saith yn ystod y dydd.

Fe'n hysbyswyd y gellid gofyn am staff asiantaeth i ddarparu cymorth ychwanegol i dîm y ward pe bai angen. Roedd hyn yn amlwg yn ystod ein harolygiad gan y trefnwyd aelod ychwanegol o'r staff i ddarparu goruchwyliaeth un i un i glaf yr oedd angen cadw golwg agos arno.

Er bod aelod ychwanegol o staff wedi'i drefnu, roeddem yn teimlo bod angen ymyrraeth fwy rheolaidd ar rai cleifion ag anghenion cymhleth. Mae hyn gan y bu'n rhaid i'r tîm arolygu ofyn i staff ddarparu cymorth i gleifion ar sawl achlysur. Roedd rhai cleifion yn gofyn am gymorth i fynd i mewn i'w gwelyau. Roedd cleifion eraill angen help i newid lleoliad yn eu gwelyau er mwyn cynnal eu hurddas a'u diogelwch, ar adegau pan nad oedd unrhyw aelodau o dîm y ward yn y manau lle'r oedd y cleifion dan sylw. Dynododd sgysiaiu gyda'r staff hefyd eu bod yn teimlo bod angen adolygu'r lefelau staffio rheolaidd ar y ward.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i adolygu lefelau staffio ar y ward er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofal cleifion bob amser.

Roedd yn amlwg bod y staff uwch ar y ward wedi ymrwymo i gynorthwyo a datblygu tîm y ward cyn belled â phosibl. Caiff cyfarfodydd ward eu cynnal yn fisol, ac roedd cofnodion ar gael i bob aelod o staff i'w darllen. Roedd amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i waith y tîm wedi cael eu trafod gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf gan y bwrdd iechyd a meysydd i'w gwella ar y ward, fel dogfennau.

Mae'r ward yn fan dysgu clinigol i nyrsys dan hyfforddiant, a derbyniwyd sylwadau gennym yn dynodi bod y ward yn cynnig amgylchedd effeithiol i nyrsys dan hyfforddiant ddysgu.

Gwelsom arweinyddiaeth eglur ar y ward. Dangosodd y nyrs gyfrifol ddealltwriaeth drylwyr o anghenion y cleifion a threfn y ward yn ystod dau ddiwrnod ein harolygiad. Roedd yn ymddangos bod yr aelodau staff eraill yn ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau priodol hefyd. Gwelsom nyrsys cofrestredig yn goruchwyllo ac yn cefnogi gweithwyr cymorth gofal iechyd a nyrsys dan hyfforddiant yn briodol.

Systemau effeithiol ar gyfer trefnu gofal clinigol

Caiff gofal cleifion ei drefnu gan ddefnyddio dull nyrsio tîm. Mae hyn yn golygu bod y ward wedi'i rhannu'n ddwy adran â nyrsys cofrestredig yn gyfrifol am grŵp llai o gleifion ar y ward. Mae'r uwch nyrs gofrestredig ar gyfer pob adran yn goruchwyllo ac yn cyfarwyddo staff iau a myfyrwyr wedyn. Er ei bod yn ymddangos bod y system hon yn briodol o ystyried cynllun y ward, dynododd ein canfyddiadau o ran staffio bod rhai cleifion angen ymyrraeth amlach i ddiwallu eu hanghenion.

Roedd uwch nyrs gofrestredig yn gyfrifol ar ddau ddiwrnod ein harolygiad. Dangosodd ddealltwriaeth dda iawn o anghenion y cleifion a threfn y ward. Dywedodd wrthym y byddai ei phatrwm shifftiau'n cael ei drefnu er mwyn sicrhau ei bod hi neu reolwr y ward ar ddyletswydd bob bore a'r llall ar ddyletswydd yn ystod y prynhawn/fin nos, cyn belled â phosibl. Mae hyn yn golygu bod staff uwch ar gael i gynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd i staff iau ac ar gael i siarad â pherthnasau a gofalwyr yn rheolaidd.

Hyfforddiant a datblygiad

Fe'n hysbyswyd gan y nyrs gyfrifol bod nifer y staff y mae eu hyfforddiant gorfodol yn gyfredol yn cael ei monitro bob mis yn rhan o broses archwilio reolaidd y bwrdd iechyd. Roedd y cofnodion archwilio'n gyfredol ac yn ystyried nifer o feysydd/pynciau sy'n berthnasol i ofal cleifion. Daethpwyd i'r casgliad o'r cofnodion a welwyd bod angen gwelliannau mewn nifer o feysydd i sicrhau cydymffurfiaid â thargedau'r bwrdd iechyd.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i gynorthwyo tîm y ward i sicrhau cydymffurfiaid â thargedau'r bwrdd iechyd ar gyfer hyfforddiant gorfodol.

Fe'n hysbyswyd nad oedd y staff yn derbyn gwerthusiad o'u gwaith fel mater o drefn, er mwyn nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad. Dywedwyd bod hyn oherwydd y ffaith nad oedd llawer o'r staff wedi bod yn eu swyddi'n hir iawn o ganlyniad i newidiadau i wasanaethau yn ysbytai'r bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau bod staff ar y ward yn derbyn gwerthusiad rheolaidd o'u gwaith sy'n unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Ymdrin â chwynion a phryderon

Dywedodd y nyrs gyfrifol wrthym y byddai'r staff yn ceisio datrys pryderon (cwynion) ar lefel y ward lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Roedd yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn pe bai angen uwchgyfeirio pryderon (cwynion) ymhellach.

Mae llenyddiaeth wedi'i harddangos yn eglur ar y ward yn darparu gwybodaeth i gleifion, ymwelwyr a staff ar sut i hysbysu am bryderon ynglŷn â gofal. Mae hyn yn golygu bod gan bobl fynediad rhwydd at wybodaeth am sut i godi pryderon.

Er y byddai'r staff a nodir mewn pryderon (cwynion) yn cael eu cynnwys mewn ymchwiliadau ac yn derbyn adborth ohonynt, fe'n hysbyswyd nad oedd dysgu a nodwyd bob amser yn cael ei rannu gyda'r tîm staff ehangach. Mae hyn yn golygu nad yw cyfleoedd i ddysgu o bryderon (cwynion) a gwneud gwelliannau o ganlyniad ar gael i'r staff bob amser.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau bod yr hyn a ddysgir o bryderon (cwynion) yn cael ei rannu fel mater o drefn gyda staff y ward fel y gellir gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth fel sy'n briodol.

Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Rhaid hyrwyddo ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl yn weithredol. Rhaid adnabod risgiau, eu monitro a lle'n bosibl, eu lleihau neu eu rhwystro.

Dywedodd y nyrs gyfrifol bod trefniadau priodol ar waith i hysbysu am ddigwyddiadau clinigol ac ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt.

Mae gan y staff fynediad at amrywiaeth o bolisiau perthnasol.

Gwelsom fod archwiliadau'n cael eu cynnal i wirio agweddau allweddol ar ofal cleifion. Argymhellwyd gennym y dylai'r rhain gael eu hategu trwy gwblhau ac arddangos croesau diogelwch ar y ward.

Canfuwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y gofal a ddarperir i gleifion yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion gofal i ni eu gweld bob amser yn cynnwys tystiolaeth bod materion galluedd meddyliol wedi cael eu hasesu neu eu hystyried wrth ddarparu gofal. Rydym wedi argymhell bod y bwrdd iechyd yn cymryd camau priodol i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Gwelsom arfer diogel o ran rheoli meddyginiaeth a oedd yn cael ei defnyddio ar y ward.

Gwelsom gynlluniau gofal ysgrifenedig ar waith ar gyfer cleifion, ac roedd y rhain yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd. Er bod cynlluniau gofal ysgrifenedig ar waith, roedd y rhain yn safonedig, a byddent yn elwa o gael eu hunigoli ymhellach ar gyfer pob claf. Roedd rhai dogfennau asesu risg a oedd yn cael eu defnyddio wedi cael ei lungopïo, ac roedd yr ansawdd argraffu'n wael. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd eu darllen, ac rydym wedi argymhell bod y bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â hyn.

Nid oedd rhai cofnodion yn y cynlluniau gofal yn ddarllenadwy, ac rydym wedi argymhell bod y bwrdd iechyd yn cymryd camau priodol i sicrhau bod staff yn cydymffurfio â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Rheoli risg

Fe'n hysbyswyd gan y nyrs gyfrifol yr hysbysir am ddigwyddiadau clinigol trwy system adrodd electronig y bwrdd iechyd. Fe'n hysbyswyd bod digwyddiadau'n cael eu hymchwilio'n brydlon ac yn cynnwys staff perthnasol.

Disgrifiodd y nyrs gyfrifol enghraifft pan rannwyd yr hyn a ddysgwyd o gwmpau cleifion gyda staff y ward. Roedd hyn gyda'r bwriad o osgoi rhagor o gwmpau cleifion cyn belled â phosibl. Roedd cofnodion archwilio misol yn dynodi bod nifer y digwyddiadau difrifol a hysbyswyd ar y ward wedi gostwng dros y chwe mis blaenorol. Efallai fod hyn yn adlewyrchu prosesau asesu risg a dysgu gwell.

Polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau clinigol

Fe'n hysbyswyd gan y nyrs gyfrifol bod copïau o bolisiau perthnasol y bwrdd iechyd ar gael i staff ar y ward.

Dynododd cyfweiliadau gyda'r staff eu bod yn ymwybodol o'r polisiau â'r canllawiau sy'n gysylltiedig â'r ward.

Systemau effeithiol ar gyfer archwilio ac effeithiolrwydd clinigol

Gwelsom fod nifer o feysydd sy'n gysylltiedig â gofal cleifion yn cael eu harchwilio'n fisol. Mae'r rhain yn cynnwys achosion o friwiau pwyso, digwyddiadau clinigol a heintiau, cydymffurfiad â gweithdrefnau hylendid dwylo a rheoli heintiau, yn ogystal â chwblhau asesiadau risg cleifion.

Nid oedd croesau diogelwch⁶ wedi'u harddangos. Fe'n hysbyswyd bod hyn oherwydd eu bod wedi cael eu symud dros dro wrth ad-drefnu amgylchedd y ward. Argymhellwyd y dylid ailgyflwyno'r rhain i ategu'r archwiliadau misol cyfredol. Dylai'r rhain sicrhau y gall tîm y ward weld, trwy system syml, yr achosion o ddigwyddiadau clinigol perthnasol fel briwiau pwyso, cwmpau a heintiau gyda'r bwriad o gymryd camau prydlon i'w hatal rhag digwydd eto.

Diogelwch cleifion

Roedd y ward yn lân iawn ac yn rhydd o beryglon baglu. Roedd gan y cleifion i ni eu gweld fynediad at seinydd a oedd yn gweithio i ofyn am gymorth gan y staff pe bai ei angen. Mae seinyddion hefyd ar gael yn y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi i gleifion eu defnyddio. Yn gyffredinol, gwelsom y staff yn

⁶ Addaswyd y Groes Ddiogelwch o ddiwydiant i wneud achosion o ddigwyddiadau andwyol y gellid eu hosgoi'n hynod amlwg. Mae gwneud hynny'n sicrhau bod y tîm cyfan yn ymwybodol o ddigwyddiadau y gellid eu hosgoi gan gyflwyno synnwyr o bwrpas o ran gweithio i osgoi digwyddiadau yn y dyfodol.

ateb seinyddion yn brydlon, a chadarnhawyd hyn yn gyffredinol gan y cleifion, a ddarparodd sylwadau yn yr holiaduron bod hyn yn wir yn gyffredinol. Fodd bynnag, fel y soniwyd yn gynharach, bu'n rhaid i ni ofyn am gymorth gan staff i helpu cleifion ar sawl achlysur yn ystod ein harolygiad, sy'n awgrymu efallai fod angen staff ychwanegol i ddiwallu anghenion cleifion ar y ward yn llawn ar y pryd.

Roedd un claf angen goruchwyliaeth agos yn ystod ein harolygiad, a threfnwyd aelod ychwanegol o staff i ddarparu hyn.

Cadarnhaodd y staff i ni siarad â nhw eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion agored i niwed.

Roedd rhai cleifion yn ymddangos yn ddryslyd ar adeg ein harolygiad. Er i hyn gael ei nodi, nid oedd y cofnodion gofal i ni eu gweld bob amser yn cynnwys tystiolaeth bod materion galluedd meddyliol wedi cael eu hasesu neu eu hystyried wrth ddarparu gofal. Mae hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod staff bob amser yn dilyn egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 wrth ddarparu gofal. Rydym wedi argymhell bod y bwrdd iechyd yn cymryd camau priodol i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd gymryd camau priodol i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol hefyd i ddangos bod materion galluedd meddyliol wedi cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gofal.

Rheoli meddyginiaethau

Trefn a dull y ward

Fe'n hysbyswyd gan y staff bod polisi'r bwrdd iechyd ar reoli meddyginiaethau'n ddiogel ar gael iddynt ar y ward. Mae fferylllydd yn ymweld â'r ward yn rheolaidd i gynnig cyngor ar feddyginiaethau a ddefnyddir ar y ward. Gwelsom fferylllydd yn ymweld yn ystod dau ddiwrnod ein harolygiad.

Gwelsom fod meddyginiaeth, therapi ocsigen, a hylifau mewnythiennol yn cael eu dosbarthu ar bresgripsiwn gan ddefnyddio'r ffurflen gywir. Nid oedd un presgripsiwn ar gyfer therapi ocsigen wedi'i gwblhau'n llawn. Hysbyswyd y nyrs gyfrifol am hyn ac fe'i cywirwyd ar unwaith.

Storio cyffuriau

Gwelsom drefniadau priodol ar waith ar gyfer storio cyffuriau.

Paratoi cleifion a rhoi cyffuriau

Aethom gydag aelod o staff ar rownd feddyginiaeth. Cynhaliodd y nyrs archwiliadau adnabod gofynnol, a darparodd yr help angenrheidiol i gleifion fel y gallent gymryd eu meddyginiaeth yn ddiogel.

Roedd Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan yn cael eu defnyddio i gofnodi dosbarthiad meddyginiaethau ar bresgripsiwn a'u rhoi i gleifion. Roedd y sampl i ni ei weld wedi cael ei gwblhau'n gywir ac eithrio un y cyfeirir ato uchod ac a gywirwyd ar unwaith wedyn.

Cyffuriau a reolir

Gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu storio'n ddiogel a bod lefelau stoc yn cael eu gwirio'n rheolaidd yn unol â mesurau rheoli disgwylidig.

Cyffuriau i'w defnyddio yn y cartref

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio cyffuriau i gleifion eu defnyddio yn y cartref. Fe'n hysbyswyd gan y staff bod meddyginiaeth cleifion yn cael ei hesbonio iddynt cyn iddynt fynd adref i'w hysbysu am ba feddyginiaeth maent yn ei chymryd a sut i'w chymryd yn gywir.

Dogfennau

Asesu a chynllunio/gwerthuso gofal cleifion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion pedwar claf. Gwelsom fod cleifion yn derbyn asesiad ysgrifenedig o'u hanghenion gofal wrth gael eu derbyn i'r ward. Roedd asesiadau risg perthnasol wedi cael eu cwblhau hefyd, gan ddefnyddio dulliau asesiadau nyrsio cydnabyddedig, ac roeddent yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd ansawdd y print ar rai o'r dogfennau asesu risg a oedd yn cael eu defnyddio yn wael, gan ei wneud yn anodd ei ddarllen. Rydym wedi argymhell bod y bwrdd iechyd yn cymryd camau priodol i sicrhau bod dogfennau a ddefnyddir ar y ward yn eglur ac yn hawdd eu darllen.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ansawdd print y dogfennau a ddefnyddir ar y ward yn eglur.

Roedd y cynlluniau gofal ysgrifenedig yn cynnwys tystiolaeth fod anghenion gofal cleifion yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd. Roedd cynlluniau craidd safonedig (wedi'u hargraffu) yn cael eu defnyddio ar y ward, yn nodi anghenion gofal penodol y claf, y canlyniad rhagweledig (neu'r nod) ar gyfer y cleifion, a'r prif ymyriadau gofal nyrsio sydd eu hangen. Er bod y rhain yn darparu manylion

anghenion gofal ac ymyriadau gofal y claf, byddai'r cynlluniau hyn yn elwa o gael eu personoli fwy ac o gymryd anghenion a dymuniadau gofal unigol cleifion i ystyriaeth.

Gwelsom fod cynlluniau gofal wedi cael eu gwerthuso'n rheolaidd ac yn cynnwys manylion cynnydd y claf.

Gwelsom un enghraifft lle na allem fod yn sicr faint o hylifau mewnwythiennol presgripsiwn yr oedd claf wedi eu derbyn gan nad oedd y siart wedi'i gwblhau'n llawn. Roedd yn ymddangos bod hyn oherwydd bod dull anghyson o ddefnyddio cofnodion cydbwysu hylif yn cael ei ddefnyddio ar y ward. Nodwyd y mater hwn eisoes gan uwch staff y ward cyn ein harolygiad, ac roeddem yn fodlon eu bod yn cymryd camau i'w ddatrys.

Er bod cofnodion gofal meddygol yn ddarllenadwy ac yn cynnwys dyddiadau ac amseroedd, nid oedd rhai o'r nodiadau nyrsio'n ddarllenadwy ac nid oeddent yn bodloni safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion yn llawn.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau y cynhelir cofnodion gofal nyrsio'n unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod yn derbyn trosglwyddiad llafar gan y staff a oedd yn gweithio ar y shift flaenorol. Mae hyn yn golygu y dylai'r staff fod wedi cael eu hysbysu am wybodaeth gyfredol a pherthnasol am anghenion gofal cleifion, gan sicrhau y trosglwyddir gwybodaeth bwysig ymlaen fel y gallai staff y shift nesaf gymryd camau priodol.

Roedd aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaeth wedi cofnodi nodiadau'n nodi eu cyfraniad at ofal y claf. Mae hyn yn golygu bod y cleifion yn derbyn mewnbyn gofal arbenigol yn unol â'u hanghenion a bod gan y staff fynediad at wybodaeth ysgrifenedig yn ôl y gofyn.

Gofal diabetes

Mae'r ward yn arbenigo mewn gofal cleifion ag anhwylderau'r system endocrin, a fyddai'n cynnwys y rhai â diabetes. Fe'n hysbyswyd bod y tîm diabetes arbenigol yn ymweld â'r ward yn rheolaidd ac ar gael i gynghori a chynorthwyo'r staff gydag unrhyw ymholiadau'n ymwneud â gofal diabetes.

Roedd dau o'r cofnodion cleifion i ni eu dethol yn ymwneud â chleifion a oedd â diagnosis o ddiabetes. Roedd cynlluniau gofal safonedig (craidd) ar waith ar gyfer sut roedd diabetes y cleifion yn cael ei reoli tra'u bod ar y ward. Fel y

soniwyd yn flaenorol, byddai'r rhain yn elwa o fod yn fwy unigoleddig ar gyfer pob claf.

Edrychwyd ar gofnodion monitro a meddyginiaeth ar gyfer y ddau glaf â diabetes, a chanfuwyd bod eu glwcos gwaed yn cael ei wirio a'u bod wedi derbyn eu meddyginiaeth presgripsiwn i reoli eu diabetes.

Mae offer i fonitro lefelau glwcos gwaed cleifion a chael gwared ar offer miniog (nodwyddau) yn ddiogel ar gael i'r staff ar y ward. Mae trefniadau priodol ar waith i drin cleifion y nodwyd bod ganddynt hypoglycemia difrifol (lefel glwcos gwaed isel y mae angen ei drin yn brydlon), a chadarnhaodd y staff eu bod yn ymwybodol o'r camau cywir i'w cymryd.

Mae trefniadau ar waith i gleifion hunan-reoli eu diabetes pan fyddant yn gallu gwneud hynny.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ar Ward 6 yn Ysbyty Singleton yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau / unedau eraill y bwrdd iechyd.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar urddas a gofal hanfodol.

Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Singleton

Ward/Adran: Ward 6

Dyddiad yr arolygiad: 14 a 15 Ionawr 2015

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
	-			
	Cyflenwi Hanfodion Gofal			
12	Dylai'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau am yr oedi cyn bod dillad gwely glân ar gael a chymryd camau priodol i sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael i'r ward yn brydlon.	Hapwiriadau i gael eu cynnal i fonitro'r cyflenwad dillad gwely. Amseroedd anfon dillad gwely i gael eu hadolygu i sicrhau y cyflenwir dillad gwely'n brydlon.	Rheolwr Cyfleusterau	28/2/15
15	Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i nodi a yw bwyd a weinir ar y ward yn ddigon cynnes a chymryd camau priodol	Caiff y bwyd ei atgynhyrchu yng nghegin y ward, ac mae'n rhaid iddo gyrraedd 82° cyn ei weini. Bydd yn rhaid cael trafodaeth rhwng y staff	Rheolwr Cyfleusterau a Nyrs Arwain	28/2/15

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	yn ôl y gofyn.	arlwyo ar y ward a'r staff nyrsio er mwyn sicrhau bod y bwyd yn cael ei weini'n brydlon. Mae'r droli'n mynd o'r naill ben i'r llall ar y ward. Ni fu unrhyw gwynion am dymheredd y bwyd. Byddai dewis arall yn cael ei gynnig pe bai claf yn codi pryder.		
Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth				
19	Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i adolygu lefelau staffio ar y ward er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofal cleifion bob amser.	Adolygiad llawn o staffio'r ward i gael ei gynnal gan ddefnyddio Dull Aciwtedd Cymru Gyfan. Mae'r ward yn rhan o brawf e-amserlennu i sicrhau amserlenni effeithiol ac effeithlon. Neilltuwyd Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd ychwanegol i'r shifft nos.	Pennaeth Nyrsio	31/3/15 31/3/15 Ar waith ar unwaith
20	Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i gynorthwyo tîm y ward i sicrhau cydymffurfiaid â thargedau'r bwrdd iechyd ar gyfer hyfforddiant gorfodol.	Canran y cydymffurfiaid â hyfforddiant gorfodol ar y ward i gynyddu. Cydymffurfiaid o 95% a'r holl hyfforddiant gorfodol a statudol i gael ei gyflawni. Cydymffurfiaid â hyfforddiant gorfodol a statudol i gael ei fonitro yng nghyfarfodydd misol prif nyrsys y ward.	Pennaeth Nyrsio / Nyrs Arwain / Prif Nyrs y Ward Nyrs Arwain	31/8/2015 Ar waith ar unwaith
20	Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau bod staff ar y ward yn derbyn gwerthusiad rheolaidd o'u gwaith sy'n unol â pholisi'r bwrdd iechyd.	Pob aelod o staff i gael gwerthusiad yn unol ag amserlenni a gytunwyd gan y Bwrdd Iechyd ac i'w cynnal yn flynyddol. Cydymffurfiaid â gwerthusiadau i gael ei fonitro yn	Nyrs Arwain / Prif Nyrs y Ward	31/6/2015 Ar waith ar

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		yng nghyfarfodydd misol prif nyrsys y ward.	Nyrs Arwain	unwaith
20	Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau bod yr hyn a ddysgir o bryderon (cwynion) yn cael ei rannu fel mater o drefn gyda staff y ward fel y gellir gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth fel sy'n briodol.	Adolygiad o sut y rhennir yr hyn a ddysgir o gwynion gyda staff y ward a sut y caiff staff eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau o ran gwaith gwella ar y ward.	Uwch Nyrs	31/3/2015
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol				
24	Dylai'r bwrdd iechyd gymryd camau priodol i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol hefyd i ddangos bod materion galluedd meddyliol wedi cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gofal.	100% o'r staff i fod wedi derbyn hyfforddiant Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.	Pennaeth Nyrsio / Nyrs Arwain / Prif Nyrs y Ward	31/8/2015
25	Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ansawdd print y dogfennau a ddefnyddir ar y ward yn eglur.	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi trafod hyn gyda phob rheolwr ward a dosbarthwyd prif gopïau. Dogfennau i gael eu harchwilio yn ystod ymweliadau gan yr Uwch Nyrs o leiaf bob mis.	Uwch Nyrs	I gychwyn erbyn 28/2/2015
26	Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau priodol i sicrhau y cynhelir cofnodion gofal nyrsio'n unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	Gofynnwyd i reolwr y ward atgoffa'r holl staff am y safonau cadw cofnodion. Archwiliadau misol o safonau cadw cofnodion i gael eu cynnal.	Uwch Nyrs	I gychwyn erbyn 28/2/2015

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (printiwch): Nicola Williams.....

Teitl: Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol.....

Llofnod: [cyflwynwyd yn electronig].....

Dyddiad: 16/2/2015.....